

## Camau Gweithredu dDCO ISH1 Awel y Môr

Y cyfan i'w ddarparu erbyn Terfyn Amser 1

At sylw	Cam Gweithredu
Yr Ymgeisydd	Gofynnir i'r Ymgeisydd adolygu ac ymhelaethu ar y diffiniad o 'ddechrau' ar gyfer cyflwyniad nesaf y DCO drafft (Rhan 1, Erthygl 2, [AS-014]).
Yr Ymgeisydd	Gofynnir i'r Ymgeisydd ddiffinio 'gweithrediad o ddisgrifiad rhagnodedig' yng nghyd-destun y datblygiad arfaethedig (a155 Deddf Cynllunio 2008).
Yr Ymgeisydd	Gofynnir i'r Ymgeisydd adolygu cysondeb o ran defnyddio'r termau "cyn dechrau" a "rhagarweiniol" a diwygio'r derminoleg os oes angen.
Yr Ymgeisydd	Gofynnir i'r Ymgeisydd ymchwilio a rhoi cyfiawnhad dros gynnwys ymchwiliadau tir ymwithiol yn yr adran 'Gwaith atodol', gan gynnwys gwneud tyllau turio a phyllau arbrofol (Atodlen 1, Rhan 2, is-adran (a)[AS-014]).
Yr Ymgeisydd	Gofynnir i'r Ymgeisydd adolygu cynnwys y rhestr o fewn Erthygl 40 [AS-014].
Yr Ymgeisydd	Awgrymodd yr ExA fod yr Ymgeisydd yn adolygu DCOs Norfolk Boreas a Dwyrain Anglia mewn perthynas ag Erthygl 43 [AS-014].
Yr Ymgeisydd	Gofynnir i'r Ymgeisydd adolygu'r tablau paramedrau presennol a darparu mwy o eglurder (Atodlen 2, Gofyniad 2 Tabl 3 a Gofyniad 7 Tabl 4 [AS-014]).
Yr Ymgeisydd	Gofynnir i'r Ymgeisydd adolygu manylion datgomisiynu alltraeth, gan gynnwys datgomisiynu posibl wrth y lanfa, a gofynnir iddo ddarparu copi o'r canllawiau BEIS y cyfeirir atynt (Gofyniad 20 [AS-014]).
Yr Ymgeisydd	Gofynnir i'r Ymgeisydd adolygu a chadarnhau ei safbwynt o ran datgomisiynu penodol ar y tir a'r angen, neu fel arall, i ddarparu manylion ychwanegol (Gofyniad 21 [AS-014]).
Yr Ymgeisydd	Gofynnir i'r Ymgeisydd adolygu sut mae Erthygl 27 wedi'i drafftio [AS-014].
Yr Ymgeisydd	Awgrymodd yr ExA fod yr Ymgeisydd yn adolygu Erthygl 16 DCO Gorsaf Cynhyrchu Ynni'r Llanw Bae Abertawe gan gyfeirio at ryng-gysylltiadau Trwydded Forol.
Yr Ymgeisydd	Gofynnir i'r Ymgeisydd ddarparu rhestr a/neu hyperddolen i'r rhestr o ddogfennau a gynhwyswyd yn y cais am Drwydded Forol a gyflwynwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru.
Yr Ymgeisydd	Gofynnir i'r Ymgeisydd roi diweddariad ynglŷn â chytundebau ag Ystad y Goron.